

Take a closer look at... FFYNGAU CAPIAU CWYR

Mae pobl yn galw capiau cwyr yn degeirianau'r byd ffyngau oherwydd gwycheder rhyfeddol eu lliwiau - gan fod rhai pinc, rhai coch, rhai melyn a rhai gwyrdd i'w cael. Gellid gofyn pam y mae'r rhain mor lliwgar - ond dyma un o'r dirgelion lu sydd ynghlwm wrth y ffyngau prydferth hyn. Fe'u gelwir yn gapiau cwyr oherwydd eu capiau sgleiniog, cwyrtaidd neu ludiog. Mae Cymru'n bwysig yn rhyngwladol oherwydd ei chapiau cwyr. Mae presenoldeb capiau cwyr yn arwydd bod cyflwr y cynefin yn dda. Yr hydref yw'r adeg orau i weld capiau cwyr - cadwch lygad am rai yn eich ardal chi!

- Tyf capiau cwyr ar laswelltir lle mae'r pridd heb ei droi ers amser maith - er enghraifft hen borfeydd heb eu haredig, lawntiau, a mynwentydd lle nad oes neb wedi bod yn gwasgaru gwrtaith yn ddiweddar.
- Lle gwelwch chi gapiau cwyr yn tyfu byddwch chi'n gweld bob amser fod mwsogl yn tyfu yno hefyd – a hyd yn hyn nid ydym yn gwybod beth yw'r cysylltiad rhyngddynt.
- Yng Ngogledd America cynefin nodweddiadol capiau cwyr yw coetiroedd - sy'n ddirgelwch arall i'r arbenigwyr ei ddatrys.
- Er mwyn gwarchod ffyngau glaswelltir:
 - 1) gofalwch, yn y llecynnau hynny sy'n fannau da i ffyngau, fod y borfa'n cael ei thorri'n rheolaidd,
 - 2) codwch y torion porfa,
 - 3) peidiwch â thorri'r borfa mor aml yn y llecynnau hynny sy'n llai pwysig i ffyngau, a hynny er mwyn ffafrio blodau,
 - 4) peidiwch â bwydo'r lawnt na defnyddio unrhyw wrteithiau na lladdwyr mwsogl, ac yn y blaen; peidiwch ag ailhadu.



Mae rhagor o wybodaeth am gapiau cwyr ar gael ar wefan Plantlife ac mae rhagor o wybodaeth am fywyd gwylt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin ar gael ar wefan y Cyngor



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

 **Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

 **Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council**